# Rheolwr Datblygu Artistiaid (cyfnod mamolaeth)

## pecyn swydd

*Rydym yn recriwtio Rheolwr Datblygu Artistiaid am 3 diwrnod yr wythnos i ymuno â'n tîm bach ond deinamig, tra bod ein haelod o staff parhaol ar gyfnod mamolaeth.*



Jessika Kay

Tŷ Cerdd
Music Wales


James McVinnie ac Andrew Cusworth

**Pwy ydyn ni?**

Mae lle Tŷ Cerdd ym mywyd cerddorol Cymru yn unigryw. Rydym yn gweithio gyda gwneuthurwyr cerdd ym mhob cam o'u gyrfa, ynghyd â gweithio gyda chymunedau sy'n gwneud cerddoriaeth ledled y genedl a nifer o sefydliadau a rhwydweithiau cerddoriaeth yng Nghymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

Yn ein pencadlys yng Nghanolfan Mileniwm Cymru mae gennym stiwdio recordio, menter gyhoeddi a dwy label recordiau: Recordiau Tŷ Cerdd, a Sionci (sef ein label newydd dan arweiniad artistiaid). Rydym hefyd yn dosbarthu arian y Loteri ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru i sefydliadau a mudiadau ledled Cymru.

CoDI yw ein rhaglen datblygu greadigol sy'n canolbwyntio ar yr artist ac yn cefnogi creadigaeth a datblygiad cerddoriaeth yng Nghymru. Rydym yn cefnogi gwneuthurwyr cerdd yng Nghymru ac o Gymru, ar draws pob genre, arddull, a chamau gyrfa. Gan weithio mewn partneriaeth gydag artistiaid a sefydliadau, mae CoDI yn cyflwyno cyfleoedd creadigol hygyrch o ansawdd uchel gyda thâl, wedi'u teilwra i anghenion y cyfranogwyr.

## Rheolwr Datblygu Artistiaid (cyfnod mamolaeth)

**Contract ac oriau**
3 diwrnod yr wythnos (22.2 awr), contract 9-mis o fis Tachwedd 2026
*Oriau hyblyg yn bosibl (bydd dydd Mawrth yn ddiwrnod gweithio rheolaidd)*

**Lleoliad**
Caerdydd
(*ond gall deiliad y swydd weithio o bell o unrhyw le yng Nghymru*)

**Cyflog**
£29,000 pro rata

**Pension**
ACRP (Cynllun Ymddeol Arts Council England)
*wedi'i weinyddu gan Hymans Robertson*

**Yn adrodd i**
Y Cyfarwyddwr

**Dyddiad cau**
12 canol dydd, dydd Llun 14 Medi 2026

**Cyfweliadau**
Dydd Mawrth 29 Medi 2026, Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd



Cynghrair Cerddoriaeth Arbrofol Cymru

**Datblygu artistiaid o fewn Tŷ Cerdd**

Rydym yn chwilio am unigolyn proffesiynol profiadol a threfnus iawn i reoli ein rhaglen datblygu artistiaid am gyfnod o 9 mis (gyda'r posibilrwydd o estyniad am gyfnod o amser cyfyngedig).

CoDI yw rhaglen datblygu artistiaid Tŷ Cerdd, ac mae wedi bod yn galluogi ac yn cefnogi cyfansoddwyr a chrewyr cerddoriaeth yng Nghymru ers 2018, a hynny drwy lwybrau datblygu creadigol sydd â thâl yn ogystal â thrwy weithdai, hyfforddiant a chyfleoedd rhwydweithio. Yn ystod y chwe blynedd, rydym wedi gweithio i wella mynediad i'n rhaglenni, i agor ein gwaith i ystod gynyddol o gerddorion, ac i gael gwared ar rwystrau – gan fabwysiadu'r slogan "os ydych chi'n gwneud cerddoriaeth yng Nghymru, mae'n gerddoriaeth Gymreig!" – a rhannu arfer gorau gyda phartneriaid. Rydym wedi bod yn ffodus i gael ein cefnogi i fwrw ymlaen â CoDI trwy gael grantiau prosiect gan ein cyllidwr rheolaidd Cyngor Celfyddydau Cymru, ynghyd â chronfeydd Partneriaid Datblygu Talent Sefydliad y PRS (rydym yn falch o fod yn un o'u partneriaid datblygu ledled y DU) ac rydym yn llofnodwyr gwreiddiol i Fair Access Principles Sound and Music).

Mae'n amser cyffrous i ymuno â'r sefydliad wrth lunio rhaglenni gydag artistiaid a phartneriaid. Bydd y Rheolwr Datblygu Artistiaid yn llywio datblygiad rhaglen CoDI, gan ei goruchwylio a bod yn gyfrifol am ei chynnal, a hynny mewn cydweithrediad ag aelodau'r tîm, artistiaid a phartneriaid.

Gyda'i gwreiddiau mewn arbrofi, mae rhaglen CoDI 2026/27 yn cynnig lle croesawgar i artistiaid archwilio syniadau, cymryd risgiau creadigol, ac ehangu ar eu hymarfer mewn cyfeiriadau newydd. Ar draws amrywiaeth o gefndiroedd, hyfforddiant, genres a chamau gyrfa, mae cyfranogwyr CoDI yn derbyn cefnogaeth i ddatblygu eu sgiliau, datblygu eu rhwydweithiau a chreu gwaith newydd uchelgeisiol a datblygu gyrfaoedd cynaliadwy.



Berkeley Ensemble

**Y rôl**
Bydd deiliad y swydd yn goruchwylio rhaglenni CoDI sydd ar waith – mae hyn yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i gynllunio gweithgarwch a llif-gwaith gyda phartneriaid ac artistiaid arweiniol, gan gytuno ar fanylion technegol gydag aelodau'r tîm, gosod disgwyliadau gydag artistiaid a chreu copi cyfathrebu.

Ynghyd ag elfennau cynllunio a rheoli'r rôl, bydd meithrin perthynas ag artistiaid a sefydliadau partner yn hollbwysig – bydd y Rheolwr Datblygu Artistiaid (cyfnod mamolaeth) yn gweithio i sicrhau bod galwadau i artistiaid yn cyrraedd y rhai a fydd yn elwa fwyaf ohonynt, gan ddatblygu dulliau creadigol a rhyngweithiol o ymgysylltu a chyfathrebu wrth i ffrydiau newydd o weithgarwch ddatblygu. Bydd cefnogi rheolwyr prosiect Bwthyn Sonig, ein llinyn o waith creu cerddoriaeth ar gyfer artistiaid sydd ag anableddau dysgu yn elfen hollbwysig o'r rôl. Bydd ymwybyddiaeth o arfer gorau wrth ymwneud â hygyrchedd yn hanfodol.

Rydym yn cefnogi artistiaid ledled Cymru, ar wahanol gyfnodau o'u gyrfaoedd. Ein nod yw cefnogi artistiaid o bob genre – popeth o gerddoriaeth glasurol gyfoes, cerddoriaeth draddodiadol, gwerin, byrfyfyr a jazz, i gerddoriaeth arbrofol, electronig, R&B, cyfansoddwyr-cantorion ac ymarfer sy'n cyfuno genres. Mae Cerddoriaeth Draddodiadol yn flaenoriaeth newydd a phwysig i Dŷ Cerdd, ac mae'r Rheolwr Datblygu Artistiaid yn gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Datblygu Cerddoriaeth Draddodiadol i sicrhau bod artistiaid traddodiadol yn cael eu cynnwys yn rhaglen CoDI.

Rydym yn sefydliad hybrid, gyda staff yn gweithio o'r swyddfa ac o bell, felly byddai'r rôl hon yn addas ar gyfer rhywun sy'n gyfforddus yn gweithio'n annibynnol yn ogystal â gyda thîm.

**Beth gall y rôl ei gynnig i chi?**
Bydd derbyn swydd Rheolwr Datblygu Artistiaid yn Nhŷ Cerdd yn rhoi'r cyfle i chi gysylltu'n uniongyrchol ag artistiaid o bob genre ac i ffurfio gwaith ein sefydliad, sef sefydliad sy'n cael cyllid yn rheolaidd – yn ogystal â chwarae rhan weithredol yn y sector cerddoriaeth Gymreig yn ehangach.

Gan weithio yn rhan o dîm arbenigol, bydd gennych gysylltiad uniongyrchol ag artistiaid a sefydliadau o bob rhan o Gymru a thu hwnt – gan gynnwys cyfleoedd i gynrychioli'r sefydliad, yn enwedig ymhlith digwyddiadau a fforymau.

Mae'r rôl hon yn cynnig y cyfle i chi feithrin profiad mewn sefydliad celfyddydol bach a chydweithredol sydd â gwerthoedd yn sail iddo.



Perfformiad *Capel Celyn*, Eisteddfod Genedlaethol 2018

**Prif gyfrifoldebau**

Bydd y Rheolwr Datblygu Artistiaid (cyfnod mamolaeth) yn:

- Goruchwylio'r gwaith o gynnal gwahanol linynnau CoDI – gan gynnwys rheoli prosiectau'n uniongyrchol a dirprwyo gwaith rheoli prosiect i aelodau'r tîm
- Datblygu partneriaeth gyda sefydliadau, cymunedau ac artistiaid
- Cydweithio â'r Rheolwr Datblygu Cerddoriaeth Draddodiadol i sicrhau bod cerddoriaeth draddodiadol yn rhan o raglen CoDI
- Cychwyn prosesau cynllunio CoDI gyda staff Tŷ Cerdd
- Rheoli a monitro cyllidebau, ar y cyd â'r tîm cyllid
- Cynllunio a chynnal gweithgaredd gwerthuso
- Coladu gwybodaeth, cadw cofnodion o brosiectau, ysgrifennu adroddiadau i gyllidwyr
- Gweithio gyda'r Pennaeth Recordio a Chynhyrchu i fanteisio ar label Sionci ar gyfer datblygu artistiaid a gwaith sydd ar fin cael ei ryddhau/ gwaith ar waith sy'n gysylltiedig â rhaglen CoDI
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr ar gynigion codi arian

**Amodau arbennig ar gyfer y rôl**

- Y gallu i fynychu sesiynau tîm a gweithgareddau rheolaidd yng Nghaerdydd yn ôl y galw, gan gynnwys gweithdai CoDI sydd wedi'u rhaglennu
- Y gallu i trefnu i weithio bob bore dydd Mawrth
- Y gallu i fynychu digwyddiadau gyda'r nos ac ar benwythnosau (mae gennym system Amser i Ffwrdd yn Lle/TOIL)



Cwrs preswyl CoDI Hunan



Patrick Rimes ac Angharad Jenkins

**Pwy ydych chi?**

- Rydych yn weithiwr proffesiynol profiadol, yn frwdfrydig dros weithio gydag artistiaid ac eisiau eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau a'u gyrfaoedd, ac yn gyfarwydd â blaenoriaethau, anghenion a heriau crewyr/cyfansoddwyr cerddoriaeth heddiw.
- Rydych chi'n deall ac yn gysylltiedig â'r sîn gerddoriaeth, ar draws ystod o genres, yn enwedig yng Nghymru – efallai eich bod hyd yn oed yn artist eich hun ...
- Mae gennych chi ymwybyddiaeth wybodus o ystod eang o genres ac arddulliau cerdd a'r cyfleoedd, heriau a logisteg gysylltiedig.
- Rydych chi'n weithiwr tîm naturiol ac yn meddu ar agwedd gadarnhaol i gael pethau wedi'u gwneud – rydych wrth natur yn gallu datrys problemau ac yn ddiplomydd, yn sensitif i weithio gyda phobl a chymunedau sydd ag ystod o ofynion, anghenion a blaenoriaethau.
- Mae gennych lygad craff am fanylion ac yn meddu ar sgiliau a phrosesau rheoli prosiect cryf i sicrhau eich bod yn gallu blaenoriaethu'n briodol, yn rheoli gallu sawl llinyn gwaith sy'n digwydd ar yr un pryd ac yn cyfathrebu'n gyson ac effeithiol ag aelodau eraill o'r tîm.
- Rydych yn gyfforddus i ysgwyddo cyfrifoldeb am eich maes gwaith, ac yn hyderus ac yn hael wrth weithio ar brosiectau cydweithredol.
- Mae eich gwerthoedd yn cyd-fynd â chonglfeini Tŷ Cerdd ei hun, ac mae gennych ymrwymiad dwfn i fynediad a chynhwysiant sydd yn cael ei adlewyrchu yn eich gwaith â'ch dull.
- Rydych yn meddwl yn greadigol, yn brofiadol ac yn hyderus wrth ymgynghori ag artistiaid a chymunedau sydd â blaenoriaeth, ac yn gallu cydgynllunio gweithgareddau gyda chyfranogwyr a phartneriaid.
- Rydych yn agored i fod yn hyblyg ac i flaenoriaethu pan fydd prosiectau'n cyrraedd penllanw, ac i ymgymryd â dyletswyddau eraill ar gais rhesymol.

**Pa sgiliau a phrofiad sydd gennych?**

**Yn hanfodol**

- Profiad blaenorol a sgiliau rheoli prosiect
- Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o faterion sy'n wynebu artistiaid/crewyr cerddoriaeth
- Profiad o reoli cyllidebau, a phrosesau ar gyfer monitro gwariant ac incwm
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol
- Dealltwriaeth a phrofiad o gynnal gwerthusiad gydag artistiaid a chymunedau
- Gwerthfawrogiad o bwysigrwydd y Gymraeg i Tŷ Cerdd, ein hartistiaid a'n cymunedau

**Yn ddefnyddiol**

- Profiad o weithio ym maes datblygu artistiaid
- Profiad uniongyrchol o greu cerddoriaeth eich hun, neu o weithio ochr yn ochr â cherddorion
- Gwybodaeth broffesiynol a diwylliedig o wahanol genres a disgyblaethau cerddorol – gan gynnwys ymarfer gyfoes-glasurol, cynhyrchu cerddoriaeth a dulliau arbrofol
- Profiad blaenorol o ddatblygu rhaglenni creadigol mewn cerddoriaeth
- Gwybodaeth gref o gerddoriaeth yng Nghymru a chysylltiadau yn y maes
- Profiad o fod yn rheolwr llinell
- Y gallu i siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg
- Dealltwriaeth o waith Tŷ Cerdd, a diddordeb ynddo

**Cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant**

Yn unol â'n hymrwymiadau i'n Conglfeini, rydym yn awyddus i dderbyn ceisiadau gan unigolion sydd heb gynrychiolaeth ddigonol neu sydd wedi eu hesgeuluso neu eu hallgáu o'r gymuned gelfyddydol. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bobl anabl a niwroamrywiol, pobl sy'n Ddu, Asiaidd ac o'r mwyafrif byd-eang, pobl LHDTCRhA+, a phobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. Mae ein gwaith wedi'i arwain gan ein hymrwymiad i'n Conglfeini ac i Fair Access Principles Sound and Music.

Rydym ni Tŷ Cerdd, yn dilyn model cymdeithasol o anabledd – gan gydnabod bod rhwystrau yn bodoli mewn amgylcheddau a strwythurau cymdeithasol, ddim mewn pobl. Fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, rydym yn croesawu trafodaethau ynghylch sut y gallwn eich cefnogi drwy'r broses recriwtio. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gwaith cynhwysol, hygyrch a chefnogol i'n gweithwyr.

**Gwybodaeth bellach**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech drafod y rôl yn gyfrinachol, mae pob croeso i chi gysylltu â deborah.keyser@tycerdd.org

## Sut i ymgeisio

**Ceisiadau**

Uwchlwythwch eich CV (gan gynnwys manylion 2 eirda) a llythyr eglurhaol yma yn manylu ynghylch sut rydych chi'n bodloni anghenion y rôl.

**Dyddiad cau**

12:00 canol dydd, Dydd Llun 14 Medi. Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, byddwn yn rhoi gwybod i chi erbyn Dydd Llun 21 Medi.

**Cyfweliadau**

Dydd Mawrth 29 Medi yn swyddfa Tŷ Cerdd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, Bae Caerdydd

**Bydd cwestiynau'n cael eu darparu ymlaen llaw i'r rheiny sy'n cael eu gwahodd am gyfweliad.**

**Canllawiau ar gyfer eich llythyr eglurhaol**

Defnyddiwch eich llythyr eglurhaol i esbonio'n glir sut mae eich sgiliau a'ch profiad yn bodloni gofynion y rôl. Rydym yn argymell eich bod yn trefnu'ch llythyr ar sail y meini prawf a restrir o dan y penawdau **Hanfodol** a **Defnyddiol** yn yr adran **Pa sgiliau a phrofiad sydd gennych i'w cynnig?** Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi ddefnyddio'r rhain fel penawdau, gan ein bod yn ystyried y meini prawf hyn wrth adolygu ceisiadau.

Mae gennym ddiddordeb yn eich profiad chi, yn eich enghreifftiau a'ch myfyrdodau. Mae croeso i chi ddefnyddio offer ysgrifennu megis gwirwyr sillafu neu ramadeg, neu offer deallusrwydd artiffisial (AI) i'ch helpu i roi trefn ar eich syniadau, ond rydym yn eich annog i sicrhau bod eich cais wedi'i ysgrifennu yn eich geiriau eich hun ac yn adlewyrchu eich profiad a'ch llais eich hun.

Y ceisiadau sy'n debygol o fod fwyaf defnyddiol i ni yw'r rheiny sy'n rhoi enghreifftiau clir a phenodol o'r hyn rydych wedi'i wneud a sut mae hyn yn berthnasol i'r rôl.



Jenn Kirby